Annwyl Asiant

Mae'n debyg y byddwch chi i gyd yn ymdrin â goblygiadau pandemig Cofid19 a'i effaith ar eich priod fusnesau. Mae'r e-bost hwn yn nodi'n fyr y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg o ran gwasanaeth cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Byddaf yn rhoi diweddariad i chi pe bai angen newid unrhyw wybodaeth, gan fod hon yn sefyllfa sy'n esblygu'n gyflym iawn.

Ein blaenoriaeth gyntaf wrth gwrs yw diogelwch a lles ein staff a'r cyhoedd, ond byddwn hefyd yn ceisio cynnal gwasanaeth mewn amgylchiadau a fydd, heb os, yn dod yn heriol.

Mae'r pwyntiau bwled isod yn nodi rhai o'r goblygiadau allweddol fel y maent ar hyn o bryd:

- Mae swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ar gau i'r cyhoedd - felly ni ellir trefnu cyfarfodydd gyda swyddogion mwyach;
- Heddiw, bydd cyfran fawr o'r staff yn gweithio gartref. Fodd bynnag, bydd modd cysylltu â mwyafrif y staff o hyd trwy e-bost neu dros y ffôn. O ystyried y baich ychwanegol ar staff, dim ond os yw'n angenrheidiol y dylech geisio cysylltu;
- Mae ychydig o staff yn y swyddfa, ond pwysleisiaf ei bod ar gau i'r cyhoedd. Petai'r ychydig staff hyn yn mynd yn sâl, byddai hyn yn cael effaith fawr ar gyflawni'r gwasanaeth a byddaf yn rhoi gwybod i chi pe bai unrhyw beth yn newid yn hynny o beth.
- Mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi'i ganslo am y tro - felly ni fydd pwyllgor cynllunio ar y 1af o Ebrill nac ar yr 20fed o Fai. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio ar y 5ed o Orffennaf. Felly am y tro, ni ellir penderfynu ar geisiadau cynllunio sydd angen cael eu penderfynu yn y Pwyllgor Cynllunio yn unol â threfn y Cynllun Dirprwyo.
- Er nad yw'r Gwasanaeth Cynllunio wedi'i sefydlu'n llawn i weithredu o hirbell, rydym yn gweithio tuag at allu gwneud hyn ar hyn o bryd rhag ofn y bydd yn rhaid i'r swyddfa gau yn gyfan gwbl. Tra bo'r sefyllfa fel y mae, efallai y bydd penderfynu ar rai ceisiadau yn cymryd mwy o amser na'r arfer. O dan amgylchiadau o'r fath, byddwch yn amyneddgar os gwelwch yn

Dear Agent

You will all I guess be dealing with the implications of the Covid19 pandemic and its impact upon your respective businesses. This email briefly sets out the emerging situation with regard to Snowdonia National Park Authority's planning service. I will update it should any information require changing, as this is a very quickly evolving situation.

Our first priority is of course for the safety and welfare of our staff and the general public, but we will also be trying to maintain a service in circumstances that will undoubtedly become challenging.

The bullet points below set out some of the key implications at present:

- The National Park offices are closed to the public – therefore meetings with officers can no longer be arranged;
- As of today, a large proportion of the staff will be working from home. However, the majority of staff will still be contactable by email or telephone. Given the additional burden on staff, please only try and get in touch if necessary;
- The office retains a small number of staff, but I emphasise it is closed to the public. A small number of staff becoming ill could have a big impact upon service delivery – and I will keep you informed should anything change with regard to this.
- Planning Committee has been cancelled for the time being – therefore there will be no planning committee on 1st April or 20th May. The situation will be reviewed with regard to the Planning Committee on 5 July. Therefore for the time being, planning applications which due to our Scheme of Delegation

dda, fe ddylai'r swyddog achos allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

- Er bod mwyafrif y ceisiadau cynllunio a dderbyniwn yn cael eu cyflwyno'n electronig, rydym yn dal i dderbyn rhai ceisiadau papur. Byddwn yn annog pob asiant / ymgeisydd i gyflwyno eu ceisiadau ar-lein ac ni allaf warantu y bydd ceisiadau papur yn cael eu penderfynu'n effeithlon gyda chyn lleied o staff yn y swyddfa. Pe bai'n rhaid i'r swyddfa gau, yn amlwg ni fydd ceisiadau papur yn cael eu penderfynu ar unwaith.
- * PWYSIG * Byddwn yn gofyn i bob ymgeisydd cynllunio dalu eu ffi cynllunio trwy drosglwyddiad banc BACS. Y manylion banc ar gyfer taliadau o'r fath yw: Cod Didoli: 20-35-70 a Rhif y Cyfrif: 30507008. Mae'n hanfodol eich bod yn defnyddio cyfenw'r ymgeisydd cynllunio fel cyfeirnod ac, os yw lle'n caniatáu, defnyddiwch gyfeiriad safle'r cais yn y blwch cyfeirio hefyd. Yna, wedi i chi wneud y taliad BACS dylech anfon e-bost (ar unwaith os yn bosibl) at cynllunio@eryri.llyw.cymru <mailto:cynllunio@eryri.llyw.cymru> gan nodi’r swm a dalwyd, eich cyfeirnod (h.y. cyfenw a chyfeiriad yr ymgeisydd yn ddelfrydol), cyfeiriad y safle ynghyd â’r datblygiad o dan sylw. Yn anffodus ni allaf warantu y bydd aelod o staff ar gael i gymryd taliadau electronig dros y ffôn, ac ni allaf warantu y bydd staff ar gael i dderbyn sieciau - a byddwn yn annog i bawb ddefnyddio taliadau BACS am y tro yn unig. Ar ôl i'r taliad gael ei glirio, gall y cais fynd yn ei flaen.
- Byddwn dal yn darparu gwasanaeth cyn cyflwyno cais a nodwch bydd rhaid hefyd talu am y gwasanaeth yma dry taliad BACS – dilynwch hyn fyny gyda ebost at cynllunio@eryri.llyw.cymru a cyfeirnod perthnasol fel yr uchod.
- Am y tro, bydd swyddogion yn dal i ymweld â safleoedd. Os ydych chi'n digwydd bod yn bresennol pan fyddant yn ymweld â safle, byddwch yn barchus a chadw pellter diogel oddi wrth eich gilydd os gwelwch yn dda (o leiaf 2m) ac osgoi ysgwyd llaw ac ati.

need to be determined at Planning Committee cannot at present be determined.

- Whilst the Planning Service is not fully set up to operate remotely, we are working towards this at present in case the office has to shut down completely. Whilst this happens some applications may take longer than normal to determine. In such an event, please be patient and the case officer should keep you updated.
- Whilst the majority of planning applications that we receive are submitted electronically, we still receive some paper applications. I would urge all agents / applicants to submit their applications online and cannot guarantee that paper applications will be determined efficiently with so few staff in the office. Should the office have to close, clearly paper applications will not be determined immediately.
- *IMPORTANT* I would ask all planning applicants to pay their planning fee through a BACS bank transfer. The bank details for such payments are: Sort Code: 20-35-70 and Account No: 30507008. It is imperative that you use the planning applicant’s surname as a reference and, if space allows, use the address of the application site in the reference box too. You must then follow the BACS payment (immediately if possible) up with an email to cynllunio@eryri.llyw.cymru stating the amount paid, your reference (i.e. applicant’s surname and ideally address), the address of the site along with the development proposed. Unfortunately I cannot guarantee there will be a member of staff to take electronic payments over

Mae'r rhain yn amseroedd digynsail, a gallaf eich sicrhau bod ein tîm bach yn gwneud eu gorau glas i barhau i ddarparu gwasanaeth cynllunio ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, gofynnwn i chithau am eich cydweithrediad a'ch amynedd yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Er gwybodaeth, roeddwn wedi bwriadu ailymgynnull Cyfarfod yr Asiantau Cynllunio'r haf hwn. Byddai hwn wedi bod yn gyfle i drafod ein strwythur newydd a'ch cyflwyno i'n Rheolwr Cynllunio newydd, Jane Jones. Mae yna nifer o faterion polisi yr hoffwn eu codi â chi hefyd. Yn ddiau, bydd gennych sawl mater yr hoffech eu rhoi ar yr agenda mewn cyfarfod o'r fath hefyd. Rwy'n gobeithio y gallwn gynnal y cyfarfod hwn ar ryw adeg eleni - a byddaf yn cysylltu â chi ynghylch hyn eto.

Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi os oes unrhyw beth yn aneglur, a gobeithio y byddwch chi a'ch teuluoedd yn aros yn ddiogel yn ystod y cyfnod heriol hwn.

**Jonathan Cawley, MTP, MRTPI**
Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir

Ffôn: 01766 772206 / 07900267523
E-bost: jonathan.cawley@eryri.llyw.cymru

the phone, and neither can I guarantee there will be staff available to receive cheques – and would urge the use of BACS payments only for the time being. Once payment has been cleared the application can proceed.

- We will still be deploying the pre-application service and please note that all payments will have to be made through BACS – please follow this up with an email to cynllunio@eryri.llyw.cymru along with the required reference as referred to above
- For the time being, officers will still be undertaking site visits. If you happen to be present when they visit a site, please be respectful of keeping safe distance from each other (minimum 2m) and avoid shaking hands etc.

These are unprecedented times, and I can assure you that our small team are doing their utmost to continue to deliver a planning service for the National Park. However, I would also ask you for your cooperation and patience during this time too.

For information, I had intended to reconvene the Planning Agents Meeting this Summer. This would have been an opportunity to discuss our new structure and introduce you to our new Planning Manager, Jane Jones. There are several policy issues that I would like to raise with you too. No doubt you will have several issues that you would like to put on the agenda at such a meeting as well. I hope we can hold this meeting at some point this year – and I will get in touch with regard to this again.

Please don’t hesitate to get in touch with me if anything is unclear, and I hope that you and your families stay safe during this challenging period.

**Jonathan Cawley, MTP, MRTPI**
Director of Planning and Land Management,

Tel: 01766 772206 / 07900267523
Email:
jonathan.cawley@eryri.llyw.cymru